**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1097
Ein cyf/Our ref LG/10516/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

12 Ionawr 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Rhagfyr ynghylch Deiseb P-05-1097 Gwahardd cewyll adar hela.

Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rydym wedi gwneud ymrwymiad i gyfyngu ar y defnydd o gewyll ar gyfer anifeiliaid fferm. Caiff yr adolygiad o'n Cod Ymarfer ar Les Adar Hela sy'n Cael eu Magu at Bwrpas Helwriaeth ei ohirio wrth i ni weithio gyda gweinyddiaethau eraill i ystyried y dystiolaeth ar ddefnyddio cewyll ar gyfer bridio adar hela. Yr wyf eisoes wedi rhoi sicrwydd yn fy llythyr dyddiedig 16 Tachwedd na fydd unrhyw newidiadau i'r Cod Ymarfer, nac i ddeddfwriaeth lles, heb ymgynghori â rhanddeiliaid.

Ar hyn o bryd rydym yn delio â'r achos mwyaf o Ffliw'r Adar y mae'r DU erioed wedi'i weld, yn ogystal â phwysau'r pandemig Covid ac ag effeithiau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Am y rhesymau hyn, ni allaf, ar hyn o bryd, roi manylion i chi am y llinell amser ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.